

## Erthygl 10 Trefniadau ar y Cyd

### 10.1 Trefniadau i Hyrwyddo Lles

Gall y Cyngor neu'r Cabinet, er mwyn hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal:-

- (a) llunio trefniadau neu gytundebau gyda unrhyw berson neu gorff;
- (b) cydweithredu â, neu hwyluso neu gydlynu gweithgareddau unrhyw berson neu gorff; a
- (c) ymarfer ar ran y person neu'r corff hwnnw unrhyw rai o swyddogaethau'r person neu'r corff hwnnw.

### 10.2 Trefniadau ar y Cyd

- (a) Gall y Cyngor sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o Awdurdodau Lleol a/neu eu gweithrediaethau i gyflawni swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau gweithredol mewn unrhyw un o'r Awdurdodau cyfranogol, neu gynghori'r Cyngor. Gall trefniadau o'r fath olygu penodi pwyllgor ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol eraill hyn;
- (b) Gall y Cabinet sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o Awdurdodau Lleol i gyflawni swyddogaethau sy'n swyddogaethau gweithredol. Gall trefniadau o'r fath olygu penodi pwyllgorau ar y cyd â'r Awdurdodau eraill hyn;
- (c) Ac eithrio fel y nodir isod, ni all y Cabinet ond penodi aelodau o'r Cabinet i bwyllgor ar y cyd, ac nid oes raid i'r aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol yr Awdurdod Lleol fel corff cyfan;
- (d) Gall y Cabinet benodi aelodau i bwyllgor ar y cyd o'r tu allan i'r weithrediaeth lle bo gan y pwyllgor ar y cyd swyddogaethau am ran o ardal yr Awdurdod yn unig, a bod yr ardal honno yn llai na dwy ran o bump o'r Awdurdod yn ôl arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o'r fath, gall y weithrediaeth benodi i'r pwyllgor ar y cyd unrhyw gynghorydd sy'n aelod dros etholaeth a gynhwysir yn gyfan gwbl neu yn rhannol o fewn yr ardal. Nid yw'r gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o'r fath.

### 10.3 Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol

- (a) Gall unrhyw ddau brif gyngor neu ragor wneud cais ar y cyd i Weinidogion Cymru am i drefniadau gael eu gwneud i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol i ymarfer swyddogaeth o'r cynghorau hynny neu swyddogaeth llesiant economaidd y cynghorau hynny mewn perthynas â phrif feysydd y cynghorau hynny.
- (b) Gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu corff corfforaethol (a elwir yn Gyd-bwyllgor Corfforaethol) i ymarfer, mewn perthynas â'r prif feysydd a nodir yn y rheoliadau, swyddogaeth a nodir yn y rheoliadau.

Ar 17 Mawrth 2021 bu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a sefydlodd gorff Corfforaethol o'r enw Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

#### **10.4 Mynediad at Wybodaeth**

- (a) Mae'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn yn gymwys;
- (b) Os yw holl aelodau pwyllgor ar y cyd yn aelodau o'r Weithrediaeth ym mhob un o'r Awdurdodau cyfranogol, yna mae ei drefn mynediad at wybodaeth yr un fath â'r hyn sy'n gymwys i'r Weithrediaeth;
- (c) Os yw'r pwyllgor ar y cyd yn cynnwys aelodau nad ydynt ar Weithrediaeth unrhyw Awdurdod cyfranogol, yna bydd y rheolau mynediad at wybodaeth yn Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gymwys.

#### **10.5 Dirprwyo i ac o Awdurdodau Lleol eraill**

- (a) Gall y Cyngor ddirprwyo swyddogaethau anweithredol i Awdurdod Lleol arall neu, mewn rhai amgylchiadau, i weithrediaeth Awdurdod Lleol arall.
- (b) Gall y weithrediaeth ddirprwyo swyddogaethau gweithredol i Awdurdod Lleol arall neu i weithrediaeth Awdurdod Lleol arall mewn rhai amgylchiadau;
- (c) Bydd y penderfyniad p'un ai derbyn dirprwyo o'r fath o Awdurdod Lleol arall yn cael ei gyfyngu i gyfarfod y Cyngor.

#### **10.6 Contractio Allan**

Gall y Cyngor a'r Cabinet gontractio allan i gorff neu sefydliad arall swyddogaethau y gellir eu cyflawni gan swyddog ac sy'n ddarostyngedig i orchymyn o dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, neu o dan drefniadau contractio lle bo'r contractwr yn gweithredu fel asiant y Cyngor o dan egwyddorion contractio arferol, cyn belled nad oes unrhyw ddirprwyo ar wneud penderfyniadau dewisol y Cyngor.